

# Gwasanaethau Laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys

## Adroddiad Blynyddol 2016 – 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Rhagair .....	5
2.	Crynodeb .....	6
3.	Yr hyn a wnaethom .....	9
4.	Yr hyn a ganfuom.....	12
	Ansawdd profiad y claf .....	12
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	19
5.	Casgliadau .....	21
6.	Beth nesaf? .....	22
	Atodiad A – Argymhellion .....	23

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

# 1. Rhagair

Dyma ail adroddiad blynyddol AGIC ar gyfer gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys.

Diben yr adroddiad hwn yw crynhoi'r canfyddiadau o'n harolygiadau yn ystod 2016–17 ac amlygu'r meysydd i'w gwella a'r meysydd o arfer da yr ydym wedi eu nodi ar draws gwasanaethau. O ganlyniad i'r themâu a nodwyd o'n harolygiadau, rydym wedi gwneud argymhellion cyffredin ar gyfer gwasanaethau yn y maes hwn (Atodiad A).

Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys. Fodd bynnag, darparwyr gwasanaethau gofal iechyd eu hunain sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod cleifion yn derbyn triniaethau diogel ac effeithiol. Mae Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn cyflwyno rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaeth yn hyn o beth.

Rydym yn gobeithio y bydd gwasanaethau sy'n gweithio yn y maes hwn yn ystyried cynnwys yr adroddiad blynyddol hwn a'n hargymhellion cyffredin yn ofalus, a defnyddio'r rhain i wneud gwelliannau i'w gwasanaethau.

## 2. Crynodeb

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod gwasanaethau'n darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, fel yn 2015–2016, roedd meysydd cyffredin o bryder ynghylch cydymffurfiaid â'r rheoliadau yn y mwyafrif o wasanaethau a arolygwyd.

Caiff gwasanaethau sy'n darparu triniaethau i gleifion gan ddefnyddio laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys<sup>1</sup> eu cofrestru gydag AGIC fel ysbytai annibynnol o dan Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Darperir mwyafrif y gwasanaethau hyn mewn salonau harddwch a chlinigau ar gyfer triniaeth croen esthetig, fel gwaredu gwallt, lleihau rhychau a chael gwared ar datŵs.

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a chanfod sut y mae gwasanaethau yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru.

Yn ystod 2016–17, cynhaliodd AGIC gyfanswm o 23 o arolygiadau o wasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys ledled Cymru. Roedd un o'r rhain yn arolygiad dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r gwelliant yr oedd ei angen gan y gwasanaeth ers yr arolygiad cychwynol yn 2015.

Er i ni ganfod rhai meysydd o welliant ymhlith y gwasanaethau i ni eu harolygu eleni, roedd yn siomedig canfod fod mwyafrif y gwelliannau yr oedd eu hangen yn debyg i'r rhai a nodwyd yn 2015–2016.

---

<sup>1</sup> Technoleg ffynhonnell golau sbectrwm eang yw Golau Pwls Dwys, ac fe'i defnyddir gan ymarferwyr cosmetig a meddygol i gyflawni gwahanol driniaethau croen at ddefnyddiau esthetig a therapiwtig.

Canfuwyd rhai gwelliannau gennym yn y meysydd canlynol:

- Trefniadau yn ymwneud ag agweddau ar iechyd a diogelwch gan gynnwys Profion Dyfeisiau Cludadwy, archwiliadau gwifrau trydanol adeiladau, y ddarpariaeth o focsys cymorth cyntaf, ac addasrwydd offer diogelu'r llygaid
- Trefniadau gwasanaethau i gleifion ddarparu adborth ar y gwasanaethau a ddarperir
- Nifer y gwasanaethau â pholisi rheoli heintiau ar waith

Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd wrth ymweld ac wrth dderbyn triniaeth. Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd i'w gwella gennym o ganlyniad i'n harolygiadau. Er i ni ganfod bod mwyafrif y gwasanaethau yn darparu gofal diogel ac effeithiol, nodwyd meysydd o bryder gennym mewn pedwar gwasanaeth lle gofynnwyd gennym i gamau brys gael eu cymryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag archwilio a chalibro offer laser, diweddarau asesiadau risg a rheolau lleol, gweithredu protocolau triniaeth a awdurdodwyd yn briodol, cynllun ffisegol offer laser mewn mannau wedi eu rheoli, a gweithrediad cofrestr triniaeth cleifion. Yn dilyn ein harolygiad, mynegodd un o'r gwasanaethau hyn ei ddymuniad i ddiddymu ei gofrestriad ag AGIC gan nad oedd yn dymuno parhau i ddarparu triniaethau gan ddefnyddio laserau Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys mwych.

Yn debyg i'n canfyddiadau yn 2015–2016, canfuwyd gennym eto bod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys ymhlith mwyafrif y gwasanaethau. Hefyd, nid oedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau systemau a phrosesau effeithiol ar waith i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau perthnasol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Canfuwyd gennym fod angen i wasanaethau wneud gwelliannau yn y meysydd canlynol:

- Darparu hyfforddiant cyfredol i'r staff ar y defnydd diogel o laserau a Golau Pwls Dwys
- Sicrhau'r defnydd diogel o offer laser a Golau Pwls Dwys gan gynnwys archwilio rheolaidd, argaeledd rheolau lleol cyfredol a chyswllt â Chynghorydd Diogelwch Laser
- Trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed, gan gynnwys hyfforddiant diogelu a pholisiau priodol yn nodi gweithdrefnau eglur i staff eu dilyn

- Archwiliadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â gofynion rheoleiddio
- Trefniadau ar gyfer rheoli risg ac iechyd a diogelwch
- Datblygu'r dogfennau, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau, a'u hadolygu'n barhaus
- Systemau llywodraethu a sicrhau ansawdd effeithiol.

Yn dilyn ein harolygiadau, yn ôl yr angen, roedd yn ofynnol i wasanaethau gwblhau cynllun gwella. Roedd hyn er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC bod y canfyddiadau o arolygiadau wedi cael sylw neu i ddangos bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud tuag at hyn. Canfuwyd gennym yn aml fod ansawdd cynlluniau gwella yn wael a bod rhai gwasanaethau yn methu â darparu'r cynlluniau yn unol â'r amserlen a gytunwyd. Fel y canfuwyd gennym yn 2015–2016, roedd hyn yn aml oherwydd bod gwasanaethau wedi methu ag ymglyfarwyddo'n ddigonol â gofynion y safonau a'r rheoliadau er mwyn cymryd camau priodol. Yn yr achosion hyn, cymerwyd camau pellach gennym i sicrhau bod gwasanaethau yn rhoi'r lefel angenrheidiol o sicrwydd i AGIC.

Cyhoeddir adroddiadau ar ein holl arolygiadau a'u cynlluniau gwella cysylltiedig ar wefan AGIC.<sup>2</sup>

---

<sup>2</sup> [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)



### 3. Yr hyn a wnaethom

2016–2017 oedd ail flwyddyn rhaglen barhaus o arolygiadau tair blynedd o wasanaethau laser a Golau Pwls Dwys yng Nghymru, ar ôl cyflwyno dull arolygu newydd yn 2015–2016. Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, cynhaliwyd cyfanswm o 23 o arolygiadau ledled Cymru, ac roedd un ohonynt yn arolygiad dilynol.

Roedd pob arolygiad yn un lle rhoddwyd rhybudd (pedair wythnos ymlaen llaw yn gyffredinol) ac fe'i cynhaliwyd gan o leiaf dau aelod o staff AGIC. Roedd AGIC yn gallu cynnig lleoliad i Gynghorydd Diogelwch Laser dan hyfforddiant yn ystod y flwyddyn, a fu o fudd; llwyddodd yr hyfforddai i gynnig cyngor a chymorth i staff AGIC o safbwynt proffesiynol yn ystod nifer o arolygiadau. Llwyddwyd i ddatblygu ein dull arolygu a'n canllawiau cymorth ymhellach o ganlyniad i'r lleoliad.

Ein nod yw sicrhau mai tair blynedd yw'r cyfnod mwyaf posibl rhwng arolygiadau ar gyfer y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd gwasanaethau yn cael eu harolygu yn amlach wrth i ni gymryd i ystyriaeth canfyddiadau o arolygiadau blaenorol a gwybodaeth yr ydym yn ei derbyn wrth ystyried ein dull arolygu seiliedig ar risg.

Mae gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn gyfrifol am sicrhau ansawdd a diogelwch y triniaethau a ddarperir. Yn ystod pob arolygiad, ystyriodd AGIC pa un a oedd systemau a phrosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn:

- Bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol perthnasol a chydymffurfio â rheoliadau
- Darparu triniaeth a gofal o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth trwy wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf/defnyddiwr gwasanaeth
- Monitro ansawdd triniaeth a gwasanaethau yn barhaus
- Cywiro pethau yn gyflym pan fyddant yn mynd o'u lle
- Darparu triniaeth a gwasanaethau yn unol â'r datganiad o ddiben.

Cyhoeddwyd ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Casglwyd gwybodaeth gennym o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff (pan fo'n briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau (pan fo'n berthnasol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y gwasanaeth, ac ar ei wefan (pan fo'n briodol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Darparwyd trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd pob arolygiad, i sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Mae ein harolygiadau yn cynnig cipolwg ar ddiwrnod yr arolygiad o'r graddau y mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau diogelwch ac ansawdd hanfodol.

Mabwysiadodd AGIC ddull cytbwys a chymesur gyda gwasanaethau wrth ofyn iddynt gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw welliannau a nodwyd. Fodd bynnag, roedd sicrhau nad oedd cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn cael eu rhoi mewn perygl yn ganolog i'r dull hwn. Pan fo gan AGIC bryderon diogelwch cleifion uniongyrchol, mae'n codi ac yn uwchgyfeirio'r rhain ar adeg yr arolygiad ac yn gwneud cais iddynt gael eu datrys gan staff y gwasanaeth cyn diwedd yr arolygiad pan fo hynny'n bosibl. Pan nodir diffyg cydymffurfriad difrifol â'r rheoliadau sy'n arwain at ganlyniadau gwael i gleifion ac sy'n dynodi methiant systemig mewn gwasanaeth, byddai'r darparwr cofrestredig yn cael ei hysbysu trwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Yn dilyn pob arolygiad, anfonwyd adroddiad drafft i'r gwasanaeth i wirio ar gyfer cywirdeb ffeithiol. Pan oedd yn briodol, roedd hyn yn cynnwys cynllun gwella i'r gwasanaeth ei gyflawni, er mwyn hysbysu AGIC am y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Gwerthuswyd yr holl gynlluniau gwella ar wahân gan AGIC i benderfynu a oedd y gwasanaeth wedi ymateb yn

briodol neu a oedd angen camau pellach. Ar ôl cytuno ar y cynllun gwella, roedd hwn yn cael ei gyhoeddi ynghyd â'r adroddiad arolygu ar wefan AGIC.

At ddiben yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at gyfrifoldebau'r grwpiau/unigolion canlynol:

- Rheolwr cofrestredig: Unigolyn sydd wedi ei gofrestru o dan Ran II Deddf Safonau Gofal 2000 fel rheolwr gwasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae'n atebol yn lleol am sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn cydymffurfio â rheoliadau
- Darparwr cofrestredig: Unigolyn sydd wedi ei gofrestru o dan Ran II Deddf Safonau Gofal 2000 fel y sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth gofal iechyd annibynnol
- Gweithredwyr laser/Golau Pwls Dwys: Unrhyw un sy'n darparu unrhyw fath o driniaeth i gleifion gan ddefnyddio laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys.

## 4. Yr hyn a ganfuom

### Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt ac y darparwyd digon o wybodaeth iddynt allu gwneud dewis cytbwys am eu triniaeth. Roedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau systemau priodol ar waith i alluogi cleifion i ddarparu adborth am y driniaeth a dderbyniwyd.

Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen gwelliannau i'r wybodaeth a gofnodwyd gan wasanaethau am driniaethau a roddwyd. Roedd hefyd yn ofynnol i fwyafrif y gwasanaethau wneud gwelliannau i wybodaeth yn eu dogfennau Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion, yn unol â'r rheoliadau.

### Ymgysylltiad ac adborth cleifion

Cyn arolygiad, gofynnwyd i wasanaethau ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau ar y gwasanaethau a ddarparwyd. Roedd nifer yr holiaduron a gwblhawyd a ddarparwyd i AGIC yn amrywio o bedwar i 30. Canfuwyd gennym fod hyn yn dibynnu ar y gwasanaeth unigol a nifer y cleifion yr oedd wedi eu gweld yn yr wythnosau yn arwain at yr arolygiad, gyda rhai gwasanaethau yn gweld ychydig iawn o gleifion bob wythnos. Nid oedd pedwar o ddarparwyr gwasanaeth yn gallu darparu unrhyw holiaduron wedi eu cwblhau. Roedd holiaduron a gwblhawyd yn dynodi bod cleifion yn fodlon iawn gyda'u profiadau wrth ymweld â'r gwasanaethau. Roedd mwyafrif y cleifion yn cytuno, neu'n cytuno'n gryf, gyda datganiadau bod gwasanaethau yn lân ac yn daclus a bod y staff yn foesgar, yn ofalgar, yn gwrando, ac yn cynnig digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom fod gan y rhan fwyaf o wasanaethau system ffurfiol ar waith i dderbyn safbwyntiau ac adborth cleifion yn rheolaidd fel ffordd o fonitro ansawdd y

gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Dim ond tri nad oedd ganddynt unrhyw system ar waith. Roedd hyn yn welliant o'r gwasanaethau i ni eu harolygu yn 2015–2016, pan nad oedd gan y mwyafrif system ar waith i'w galluogi i dderbyn adborth a safbwyntiau cleifion.

### **Gwybodaeth a chydysniad cleifion**

Canfuwyd gennym, fel yn 2015–2016, bod gwasanaethau yn darparu gwybodaeth briodol i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad cytbwys am eu gofal. Darparwyd ymgynghoriad i'r cleifion cyn triniaeth fel rheol, a rhoddwyd gwybodaeth iddynt am y peryglon a'r manteision. Hefyd, gofynnwyd i gleifion ddarparu cydysniad ysgrifenedig i driniaeth a ffurflenni hanes meddygol cyflawn. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd rhai gwasanaethau'n cofnodi'r wybodaeth hon yn gyson. Er i wasanaethau ddweud wrthym fod trafodaethau llafar yn cael eu cynnal gyda chleifion, canfuwyd gennym fod rhai darparwyr yn methu â chofnodi cydysniad parhaus yn ffurfiol, diweddarau hanesion meddygol a chydlofnodi dogfennau pan fo'n briodol.

Canfuwyd gennym nad oedd deg gwasanaeth yn cofnodi gwybodaeth briodol na digon manwl am bob triniaeth a gyflawnir. Atgoffwyd y gwasanaethau hyn o'u cyfrifoldebau o dan y rheoliadau i sicrhau y cynhelir cofnodion gofal iechyd cynhwysfawr ar gyfer yr holl driniaethau a ddarperir i gleifion.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Yn unol â gofynion rheoleiddio, mae'n rhaid bod gan bob gwasanaeth ganllaw i gleifion a datganiad o ddiben ar waith, sy'n nodi'r mathau o wasanaethau a thriniaethau a ddarperir yn ogystal â gwybodaeth berthnasol arall am y gwasanaeth. Er i ni ganfod bod y dogfennau hyn ar gael gan yr holl wasanaethau, sy'n welliant o flwyddyn arolygu 2015–2016, nodwyd gennym fod angen gwelliant mewn lleiafrif o'n harolygiadau i sicrhau bod y dogfennau yn gywir ac yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod mwyafrif y gwasanaethau yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o argymhellion gennym, yn debyg i 2015–2016, gan gynnwys agweddau ar drefniadau iechyd a diogelwch, polisïau a hyfforddiant diogelu i staff, trefniadau ar gyfer Cynghorwyr Diogelwch Laser, protocolau meddygol priodol ar waith, a threfniadau ar gyfer cynnal a chadw offer laser/Golau Pwls Dwys.

O ganlyniad i arolygu, atgoffwyd pedwar o wasanaethau am yr angen i gymryd camau prydlon i fynd i'r afael â phryderon. Cadarnhaodd un gwasanaeth ei fwriad i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau y mae angen eu cofrestru.

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod gan y rhan fwyaf o wasanaethau drefniadau priodol ar waith yn ymwneud â darpariaeth iechyd a diogelwch. Yn wahanol i 2015–2016, canfuwyd gennym fod gan yr holl wasanaethau y canlynol ar waith:

- Cwblhau Profion Dyfeisiau Cludadwy yn rheolaidd
- Tystiolaeth o archwiliad gwifrau pum mlynedd o'r safle
- Bocsys cymorth cyntaf â stoc briodol ar gael
- Diogelwch llygaid priodol ar gyfer cleifion, gweithredwyr Golau Pwls Dwys/laser a hebryngwyr posibl.

Fel yn 2015–2016, canfuwyd gennym fod angen gwelliannau mewn naw gwasanaeth i'w trefniadau diogelwch tân. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau asesiadau risg tân cynhwysfawr, sicrhau arwyddion priodol ar gyfer allanfeydd tân, archwilio diffoddwyr tân yn rheolaidd a chwblhau ymarferion tân. Pan fo'n

briodol, rydym yn argymhell i wasanaethau y dylent gael gafael ar gyngor priodol ynghylch darpariaeth diogelwch tân yn eu safleoedd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol.<sup>3</sup>

Canfuwyd gennym hefyd, yn debyg i 2015–2016, bod angen gwneud gwelliannau i asesiadau risg amgylcheddol gwasanaethau. Er bod gan fwyafrif y gwasanaethau i ni eu harolygu asesiad risg amgylcheddol ar waith, canfuwyd gennym fod angen gwella wyth, am resymau oedd yn cynnwys nad oeddent yn ddigon manwl ac nad oeddent wedi eu llofnodi, eu dyddio neu eu hadolygu'n briodol.

Er bod mwyafrif y gwasanaethau yn atal mynediad heb awdurdod at ystafelloedd triniaeth, tynnwyd sylw tri darparwr gwasanaeth gennym at le'r oedd angen gwella i sicrhau bod allwedd i ar gyfer peiriannau Golau Pwls Dwys/laser yn cael eu symud i atal defnydd heb awdurdod.

Atgoffwyd personau cofrestredig am eu cyfrifoldebau o dan y rheoliadau i sicrhau bod yr holl fesurau a rhagofalon priodol ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff.

### **Atal a rheoli heintiau**

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod gwasanaethau yn amlwg yn lân ac yn daclus a bod ganddynt drefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Dim ond dau wasanaeth a ganfuwyd gennym nad oedd ganddynt bolisi rheoli heintiau ar waith, sy'n welliant o 2015–2016. Fe'n hysbyswyd yn ystod nifer o arolygiadau am y trefniadau manwl a oedd ar waith ar gyfer glanhau a rheoli heintiau, ond nid oedd y polisïau a'r gweithdrefnau bob amser yn adlewyrchu'r gwaith a oedd yn cael ei wneud. Fe'i gwnaed yn ofynnol gennym ar nifer o achlysuron i ddarparwyr gwasanaeth wneud gwelliannau i'w polisïau er mwyn sicrhau eu bod wedi eu hadolygu ac yn gyfredol i adlewyrchu'n llawn y gwaith a oedd yn cael ei wneud.

### **Diogelu plant ac oedolion mewn perygl**

Canfuwyd gennym fod angen gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn llawer o'r gwasanaethau i ni eu harolygu. Yn debyg

i'n canfyddiadau yn 2015–2016, roedd angen diweddarau polisïau diogelu oedolion a phlant i sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth eglur a digonol yn ôl yr angen. Roedd yn siomedig canfod nad oedd gan chwech o wasanaethau bolisi ar waith o gwbl. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd dros hanner y rheolwyr cofrestredig a gweithredwyr laser/Golau Pwls Dwys wedi derbyn hyfforddiant diogelu.

Canfuwyd gwelliant sylweddol gennym i nifer y gwasanaethau a oedd wedi cynnal archwiliadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff perthnasol. Canfuwyd gennym fod angen gwelliant yn nhri o'r 23 o wasanaethau a arolygwyd gennym. Mae hyn yn cymharu â 15 i 19 o wasanaethau a arolygwyd yn 2015–2016 nad oedd ganddynt ardstiad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Mae'n ofyniad i bob gwasanaeth fod â Chynghorydd Diogelwch Laser ar waith i gynnig cyngor a chyfarwyddyd ar ddiogelwch yr amgylchedd ac offer a defnydd gweithredol yr olaf o ddydd i ddydd. Mae hyn yn hanfodol i ddiogelwch cleifion sy'n derbyn triniaeth. Mae AGIC yn disgwyl i Gynghorydd Diogelwch Laser adolygu'r meysydd hyn yn flynyddol o leiaf er mwyn bodloni'r gofyniad hwn.

Canfuwyd gennym fod gan yr holl wasanaethau contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelwch Laser, sy'n welliant o 2015–2016, pan nad oedd hynny'n wir mewn dau o wasanaethau. Er bod 13 o'r gwasanaethau wedi derbyn ymweliad gan eu Cynghorydd Diogelwch Laser i ganiatáu asesiad risg amgylcheddol trylwyr ac adolygiad o'r rheolau lleol i gael eu cynnal, roedd yn destun pryder i ni ganfod bod y gwasanaethau a oedd yn weddill yn derbyn eu cymorth gan y Cynghorydd Diogelwch Laser o bell, gan ddisodli ymweliad safle. Cynhaliwyd asesiadau dros y ffôn, drwy'r e-bost a thrwy ffotograffau o'r amgylchedd. Yn yr un modd â'n canfyddiadau yn 2015–2016, canfuwyd gennym yn nifer o'r achosion hyn nad oedd y Cynghorydd Diogelwch Laser wedi ymweld â'r gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd ac roedd yn bryder canfod nad oedd rhai o'r peryglon posibl wedi cael eu hasesu'n ddigonol, fel bleinds ffenestr nad oeddent yn ddigonol i atal golau laser rhag dianc y man a reolir ac felly'n botensial i achosi niwed. Gwnaethom argymhell, pan nad oedd ymweliad ar y safle wedi cael ei gynnal gan Gynghorydd Diogelwch Laser, y dylai gwasanaethau drefnu i ymweliad gael ei gynnal i sicrhau bod yr holl beryglon sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r offer wedi cael eu hasesu'n briodol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Ar gyfer pob laser a pheiriant Golau Pwls Dwys sy'n cael ei ddefnyddio, mae'n rhaid bod rheolau lleol ar waith sy'n nodi'r defnydd diogel o'r offer. Mae'n un o



ofynion cofrestru AGIC bod rhaid i'r Cynghorydd Diogelwch Laser adolygu'r rheolau lleol bob blwyddyn o leiaf. Canfuwyd gennym fod gan y rhan fwyaf o wasanaethau reolau lleol ar waith a oedd wedi eu llofnodi gan y Cynghorydd Diogelwch Laser a'r holl weithredwyr i ddangos eu hymwybyddiaeth o'r rheolau hyn a'u bod yn cytuno i'w dilyn. Fodd bynnag, roedd yn ofynnol i bedwar o'r gwasanaethau adolygu a diweddarau eu rheolau lleol gan nad oeddent wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'n ofyniad bod gan yr holl wasanaethau brotocolau meddygol/triniaeth cyfredol ar waith sydd wedi eu llofnodi gan weithiwr meddygol neu ddeintyddol proffesiynol. Canfuwyd gennym nad oedd gan un gwasanaeth unrhyw un o gwbl ar waith ac roedd wyth arall naill ai heb eu llofnodi gan weithiwr meddygol neu ddeintyddol proffesiynol perthnasol neu roedd angen iddynt gael eu hadolygu a'u diweddarau.

Mae hyfforddiant rheolaidd yn bwysig i sicrhau bod unrhyw un sy'n darparu triniaethau gan ddefnyddio laser/Golau Pwls Dwys yn gwbl ymwybodol o'r risgiau a'r gofynion diogelwch sy'n gysylltiedig â'u defnyddio. Gallai methiant i fynychu hyfforddiant rheolaidd olygu nad yw gweithredwyr laserau a Golau Pwls Dwys yn meddu ar y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni triniaeth yn ddiogel.

Canfuwyd gennym yn y mwyafrif o wasanaethau bod staff a oedd yn darparu triniaethau wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn diogelwch laser a Golau Pwls Dwys o'r enw Craidd Gwybodaeth<sup>4</sup> a'u bod hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar y defnydd cywir o'r peiriannau (a ddarperir gan y gweithgynhyrchydd fel rheol). Roedd angen i ni atgoffa dau wasanaeth o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod y staff yn adnewyddu eu hyfforddiant Craidd Gwybodaeth o fewn cyfnod o dair blynedd a chytunodd y gwasanaethau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yn unol â gofynion rheoleiddio, mae'n rhaid i'r holl offer fod yn ddiogel, cael eu cadw mewn cyflwr da, a bod yn briodol i'w defnyddio. Er bod pedwar ar ddeg o

---

<sup>4</sup> Bwriedir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau Golau Pwls Dwys ar gyfer gwahanol driniaethau croen. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar y defnydd diogel o laserau a systemau Golau Pwls Dwys.

wasanaethau yn gallu cynnig cadarnhad o archwilio a chalibro eu peiriannau laser a Golau Pwls Dwys, canfuwyd gennym fod angen i'r gweddill naill ai cael gafael ar eglurhad o'r gofynion archwilio gan y gweithgynhyrchydd, bod yr archwiliad wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn, neu fod yr offer yn newydd. Pan oedd yn briodol, atgoffwyd gwasanaethau am eu cyfrifoldeb i sicrhau bod offer yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae darparwyr gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth barhaus o'r safonau a'r rheoliadau ynghylch y ddarpariaeth o driniaethau laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys. Roedd angen gwelliannau yn y mwyafrif o wasanaethau o ran gweithgarwch gwella ansawdd ac yn ansawdd parhaus polisïau a gweithdrefnau sydd ar waith.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Caiff gwasanaethau sy'n darparu triniaethau i gleifion gan ddefnyddio laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys eu cofrestru gydag AGIC fel ysbytai annibynnol. Fodd bynnag, darperir y rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn mewn lleoliadau nad ydynt yn feddygol, fel salonau harddwch a chlinigau ar gyfer triniaethau croen esthetig (e.e. gwaredu gwallt, lleihau rhychau a chael gwared ar datŵs).

Yn debyg i'n canfyddiadau yn 2015–2016, roeddem unwaith eto'n siomedig o ganfod bod gan y rhan fwyaf o wasanaethau ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'r safonau a'r rheoliadau o ran y ddarpariaeth o wasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys. O ystyried y canfyddiadau o'n harolygiadau, nid oedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau systemau a phrosesau effeithiol ar waith i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau perthnasol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Atgoffwyd dau ar bymtheg o wasanaethau a arolygwyd am eu cyfrifoldebau i sicrhau bod ganddynt drefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu digonol ar waith i sicrhau cydymffurfiaid â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Er i ni ganfod bod gan yr holl wasanaethau bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, sy'n welliant o'r gwasanaethau a arolygwyd yn 2015–2016, roedd angen gwneud diwygiadau i'r mwyafrif i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau priodol a manwl.

### **Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Canfuwyd gennym nad oedd gan un gwasanaeth bolisi cwynion ar waith, ac roedd yn ofynnol i nifer bach o wasanaethau ddiweddarau eu polisïau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r rheoliadau. Nid oedd mwyafrif y gwasanaethau wedi derbyn cwyn. Fe'u hatgoffwyd gennym am bwysigrwydd cofnodi unrhyw fath o gŵyn a dderbynnir (llafar ac ysgrifenedig) er mwyn gallu datrys pryderon a nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg a gwella arfer o ganlyniad.

### **Rheoli cofnodion**

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel gan y gwasanaethau i ni eu harolygu er mwyn cynnal cyfrinachedd. Gwnaed dau argymhelliad gennym lle gellid gwneud gwelliannau o ran rhai trefniadau diogelwch.

## **Staff ac adnoddau**

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Yn debyg i'n canfyddiadau yn 2015–2016, roedd triniaethau laser a Golau Pwls Dwys yn cael eu cyflawni gan y rheolwr cofrestredig yn unig yn llawer o'r gwasanaethau i ni eu harolygu, ac felly nid oedd gwybodaeth am gynllunio a hyfforddi'r gweithlu (h.y. ymsefydlu a gwerthusiadau) yn rhan o'r arolygiadau hyn.

Canfuwyd gennym fod gan fwyafrif y gwasanaethau archwiliadau priodol ar waith, h.y. archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer rheolwyr cofrestredig a gweithredwyr laser. Pan fo'n briodol, canfuwyd gennym yn gyffredinol bod gan wasanaethau brosesau priodol ar waith i sicrhau bod gan staff fynediad at hyfforddiant priodol, gwerthusiadau rheolaidd a chyfarfodydd tîm.

## 5. Casgliadau

Er i ni ganfod rhai meysydd o welliant yn y gwasanaethau a arolygwyd yn 2016–2017, gan gynnwys rhywfaint o ddarpariaeth iechyd a diogelwch, polisïau rheoli heintiau a'r gallu i gleifion ddarparu adborth, yn gyffredinol roedd mwyafrif y problemau a nodwyd yn adlewyrchu ein canfyddiadau yn 2015–2016. Daethpwyd i'r casgliad gennym eto bod y meysydd i'w gwella a nodwyd ar draws y gwasanaethau yn dynodi diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth darparwyr o'r safonau a'r rheoliadau o ran darparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a Golau Pwls Dwys. Er gwaethaf yr ymrwymadau ar y busnesau hyn i sicrhau bod y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn bodloni'r safonau a'r rheoliadau angenrheidiol, roedd yn amlwg nad oedd llawer o ddarparwyr yn sicrhau bod y trefniadau a'r dogfennau sy'n ofynnol wrth gofrestru yn cael eu cynnal ar sail barhaus.

Un ffactor a allai gyfrannu at y problemau hyn yw bod mwyafrif y gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru gydag AGIC yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol nad ydynt yn feddygol, y mae gan lawer ohonynt ychydig neu ddim profiad blaenorol o weithio mewn sectorau a reoleiddir. Nid oes gan y darparwyr hynny sydd o gefndir nad yw'n feddygol gymorth corff proffesiynol (fel y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer deintyddion neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer meddygon) i'w cynorthwyo gyda datblygiad proffesiynol parhaus a chydymffurfiad rheoleiddio, er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Trwy ein trafodaethau yn ystod arolygiadau, roedd yn ymddangos nad oedd llawer o ddarparwyr cofrestredig yn ymwybodol o'r ymrwymadau ariannol, rheoli ac amser sydd eu hangen i redeg eu gwasanaethau yn effeithiol a bodloni'r gofynion angenrheidiol. Roedd goblygiadau busnes hyn yn arbennig o amlwg mewn gwasanaethau llai a oedd yn trin nifer cymharol fach o gleifion.

## 6. Beth nesaf?

Bydd AGIC yn parhau i wneud gwaith dilynol ar ein harolygiadau blaenorol yn ystod y flwyddyn nesaf i geisio sicrwydd bod gwasanaethau wedi cymryd camau digonol i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd. Bydd AGIC hefyd yn ystyried, os yw'n briodol, a oes angen unrhyw gamau pellach, gan gynnwys camau gorfodi, pe bai darparwyr gwasanaeth yn methu â chymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

Bydd AGIC yn parhau'r gwaith a ddechreuwyd yn 2015–16 i ymgynghori ymhellach â Chynghorydd Diogelwch Laser ynghylch ein dull arolygu. Bydd AGIC yn ystyried yr opsiwn o ddefnyddio adolygydd cymheiriaid yn ystod arolygiadau fel dull datblygiadol o gyflawni ein gweithgarwch arolygu.

Gallai'r ffordd y caiff darparwyr laser eu rheoleiddio yn y dyfodol newid yn dilyn yr adolygiad o fframwaith deddfwriaethol AGIC a gynigir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol, Ansawdd a Llywodraethiant ym maes lechyd a Gofal yng Nghymru'. Bydd AGIC yn disgwyl am ganlyniad y broses ymgynghori ac yn addasu ei dull yn unol â hynny.

Bydd AGIC yn parhau i archwilio gwybodaeth a dderbyniwyd am wasanaethau heb eu cofrestru a allai fod yn darparu gwasanaethau laser a Golau Pwls Dwys ac y gallai fod angen eu cofrestru. Bydd unrhyw leoliadau sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 neu Olau Pwls Dwys heb gael eu cofrestru yn cael eu hystyried ar gyfer camau pellach o dan broses orfodi AGIC.

## Atodiad A – Argymhellion

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'n 23 o arolygiadau yn 2016–2017, rydym wedi gwneud yr argymhellion cyffredin canlynol y dylai pob gwasanaeth eu hystyried yn rhan o ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol.

Er ein bod wedi gweld rhai meysydd o welliant mewn gwasanaethau a arolygwyd yn 2016–2017, mae'n siomedig bod mwyafrif yr argymhellion yn adlewyrchu'r rheini a wnaed yn 2015–2016.

Argymhellion	Rheoliad / Safon
<b>Profiad y claf</b>	
Mae'n rhaid cadw cofnodion iechyd cynhwysfawr a chofrestr o'r holl driniaethau a gyflawnir.	Rheoliadau 23 a 45
Mae'n rhaid adolygu canllaw i gleifion a datganiad o ddiben yn barhaus i sicrhau eu bod yn casglu gwybodaeth berthnasol a manwl.	Rheoliadau 6 a 7
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>	
Mae'n rhaid penodi Cynghorydd Diogelwch Laser sy'n asesu ac yn cynghori ar y defnydd diogel o offer laser/Golau Pwls Dwys a'u defnydd gweithredol bob blwyddyn o leiaf, ac fel sy'n ofynnol.	Rheoliadau 15 a 19 Safon 16
Mae'n rhaid bod gan yr holl weithredwyr laser/Golau Pwls Dwys hyfforddiant cyfredol ar y defnydd o'r offer hyn ac yn y Craidd Gwybodaeth.	Rheoliad 45 (3) Safon 25
Mae'n rhaid cadw'r holl offer mewn cyflwr diogel a phriodol, gan gynnwys archwilio peiriannau laser/Golau Pwls Dwys yn rheolaidd.	Rheoliad 15
Mae'n rhaid bod rheolau lleol ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu gan Gyngorydd Diogelwch Laser bob blwyddyn o leiaf.	Amodau cofrestru AGIC Rheoliad 15 Safon 16
Mae'n rhaid bod protocolau triniaeth/meddygol ar waith ac wedi eu llofnodi gan ymarferwr meddygol	Rheoliad 45

Argymhellion	Rheoliad / Safon
arbenigol priodol.	
Mae'n rhaid bod prosesau cadarn ar waith i sicrhau lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys hyfforddiant staff yn y maes hwn a pholisïau a gweithdrefnau digonol.	Rheoliad 16 Safon 11
Mae'n rhaid i'r holl fesurau a rhagofalon priodol fod ar waith i amddiffyn iechyd a diogelwch cleifion, gan gynnwys yr holl fesurau diogelwch tân priodol ac asesiadau risg cynhwysfawr.	Rheoliadau 15, 19 a 26
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>	
Mae'n rhaid bod gan wasanaethau systemau rheolaeth a sicrhau ansawdd effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiad â'r safonau a'r rheoliadau, i sicrhau y darperir triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.	Rheoliad 19
Mae'n rhaid bod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn unol â gofynion rheoleiddio a'u hadolygu'n barhaus.	Rheoliad 9
Dylai fod gan bob person cofrestredig a gweithredwr laser/Golau Pwls Dwys dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Rheoliadau 12 a 21 ac Atodlen 2